No.

# CABINET

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd N.C. Thomas.

## C116 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd yr holl bartïon i gyfarfod y Cabinet ac atgoffa pawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei Ffrydio'n Fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd, a bod y recordiad hwnnw'n cael ei archifo i'w wylio yn y dyfodol.

Gofynnodd a wnâi'r holl gyfranogwyr roi'r mudydd ymlaen pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir neu adlif pan fyddai'r cyfranogwyr eraill yn siarad, a phe bai cyfranogwr yn dymuno siarad a allent roi llaw i fyny (i gael eu gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar yn hytrach na thrwy'r cyfleuster sgwrsio, ar gyfer y recordiad. Gellir defnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio i dynnu sylw at unrhyw broblemau technegol ac/neu i dynnu sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd yr Arweinydd fod Aelodau’r Cabinet wedi bod yn bresennol mewn seremoni i ddiolch i genhedlaeth Windrush am eu cyfraniad i’r Lluoedd Arfog, a hefyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Fforwm Dros 50. Byddai arddangosfa Windrush y Lleng Brydeinig Frenhinol yn aros yn nerbynfa’r Swyddfeydd Dinesig am yr ychydig wythnosau nesaf, cyn mynd ar daith o amgylch llyfrgelloedd ar draws Bro Morgannwg.

## C117 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2023 fel cofnod cywir.

## C118 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C119 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/23 (CYF) –**

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 13 Medi, 2023.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar yr agenda, a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd i hynny.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd ochr yn ochr ag eitem 14 ar yr agenda,

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar y rhaglen a oedd yn ymwneud â'r un mater.

Rheswm dros y penderfyniad

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C120 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/23 (CYF) –**

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Medi 2023.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar yr agenda, a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd i hynny.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd ochr yn ochr ag eitem 14 ar yr agenda,

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar y rhaglen a oedd yn ymwneud â'r un mater.

Rheswm dros y penderfyniad

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C121 CYNLLUN ARCHWILIO MANWL DRAFFT ARCHWILIO CYMRU 2023 A DIWEDDARIAD CHWARTER 1 AR RAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU (CYF) –**

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Medi 2023.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y drafodaeth yn y cyfarfod a Phenderfyniad (2) y Pwyllgor y dylid ystyried cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Consortiwm Canolbarth y De a chydwasanaethau

eraill, sef y Cydwasanaethau Rheoleiddio a'r Cydwasanaeth Mabwysiadu gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Roedd aelodau Cyngor Bro Morgannwg yn eistedd ar bob un o’r cyrff hynny ac roedd ganddynt eu trefniadau llywodraethu eu hunain, a byddent yn cyhoeddi eu datganiad cyfrifon eu hunain. Fodd bynnag, roedd y Cabinet yn hapus i gysylltu â phob un o'r cyrff ynghylch y cais a byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth fyddai'r ymatebion.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –Y byddai’r Cabinet yn cysylltu â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Consortiwm Canolbarth y De, y Cydwasanaethau Rheoleiddio a'r Cydwasanaeth Mabwysiadu i'w holi ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol i'w rannu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth fyddai eu hymateb.

Rheswm dros y penderfyniad

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C122 CYNLLUN TAIR BLYNEDD DIWYGIEDIG CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD 2022-2024 (CYF) –**

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o Bwyllgor craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 19 Medi, 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet wedi ystyried y mater yn flaenorol yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf, 2023. Wrth flaenoriaethu gwaith, dywedodd ei bod hi'n ddefnyddiol cael matrics i reoli penderfyniadau, a chyfeiriodd at y ffaith bod Penderfyniad y Pwyllgor y dylid gofyn i'r Cabinet adolygu matrics meini prawf y Cyngor i roi adlewyrchiad priodol o anghenion beicwyr, ac i sicrhau bod ffyrdd a llwybrau'n addas, eisoes wedi'i gynnwys yn unol ag Argymhelliad (5) o adroddiad gwreiddiol y Cabinet.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –Nodi trafodaeth a sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 19eg Medi, 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C123 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT BRO MORGANNWG 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 20 Medi, 2023.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar yr agenda, a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd i hynny.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd ochr yn ochr ag eitem 14 ar yr agenda,

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar y rhaglen a oedd yn ymwneud â'r un mater.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C124 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 20 Medi 2023.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 15 ar yr agenda, a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd i hynny.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd ochr yn ochr ag eitem 15 ar yr agenda,

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 15 ar y rhaglen a oedd yn ymwneud â'r un mater.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C125 ADOLYGIAD CYMUNEDOL BRO MORGANNWG – CYNIGION DRAFFT (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ar 5 Hydref, 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet wedi ystyried adroddiad ar y mater yn ei gyfarfod ar y 5ed o Hydref, 2023, cyn i'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ei ystyried yn ddiweddarach ar yr un diwrnod. Roedd yr eitem a gyfeiriwyd yn fanwl iawn, ac yn adlewyrchu'r sylwadau manwl a wnaed gan yr aelodau yn y cyfarfod ynghylch sefyllfa benodol Cynghorau Tref a Chymuned unigol, yn ogystal â materion mwy

cyffredinol o ran egwyddor, gan gynnwys dadl benodol ynghylch y ffin rhwng Sain Nicolas a Gwenfô.

Bu'r Cynghorydd Birch yn bresennol yn y cyfarfod, a dywedodd fod gwahanol safbwyntiau wedi'u trafod yn y cyfarfod, a bod y cofnodion cynhwysfawr yn rhoi adlewyrchiad teg o'r drafodaeth a'r penderfyniadau. Ychwanegodd yr Arweinydd fod llawer o'r safbwyntiau wedi'u llywio gan weithgor trawsbleidiol o fewn y Cyngor a oedd, ynghyd â barn y Cynghorau Tref a Chymuned, wedi cynhyrchu'r ymatebion i'w dychwelyd i'r Comisiwn Ffiniau.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r drafodaeth a'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ar 5 Hydref, 2023.

(2) Cymeradwyo'r ymateb i'r Comisiwn Ffiniau fel y nodir ym mharagraffau 2.7 i 2.26 o'r adroddiad i'r Cabinet ar 5 Hydref, 2023 ac anfon copi o'r adroddiad at y Comisiwn Ffiniau fel yr ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

(3) Yn unol â Phenderfyniad 2, bod copi llawn o gofnodion y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol hefyd yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Ffiniau, er mwyn i'r Comisiwn allu ystyried yr holl safbwyntiau a fynegwyd gan Aelodau'r Pwyllgor hwnnw, a bod ganddo felly ddarlun llawn o safbwyntiau'r Cynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal ag adroddiad 5 Hydref, 2023 i'r Cabinet.

(4) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau, i ddiwygio ymhellach y ffin a awgrymwyd rhwng ardal gymunedol Sain Nicolas a Thresimwn a Gwenfô, er mwyn dangos bod Twyn-yr-Odyn yn cael ei gadw o fewn Cymuned Gwenfô.

(5) Cytuno ar ddefnyddio'r weithdrefn frys, fel y'i nodir yn adran 15.14 o gyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas ag Argymhellion 2 i 4, gan gynnwys yr argymhellion hynny fel bo modd ymateb i'r Comisiwn Ffiniau erbyn y dyddiad cau, sef 30 Hydref, 2023.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1-5) Yn seiliedig ar gynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C126 POLISI BYW'N ANNIBYNNOL (CYF) –

Cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 11 Hydref, 2023.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 17 ar yr agenda, a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd i hynny.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd ochr yn ochr ag eitem 17 ar yr agenda,

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 17 ar y rhaglen a oedd yn ymwneud â'r un mater.

Rheswm dros y penderfyniad

Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C127 CABINET RHANBARTHOL PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD –**

Cyfeiriodd yr Arweinydd y drafodaeth a gynhaliwyd yn y cyfarfod i sylw'r Aelodau, a oedd yn cynnwys Sefyllfa Alldro Terfynol Cyllideb Refeniw y Cydbwyllgor, Cynllun Busnes Blynyddol - Adroddiad ar Berfformiad Chwarter 4, Ymgysylltu ag Addysg Uwch a Phellach Rhanbarthol ac Adroddiad Strategaeth Lled-ddargludyddion y DU, yn ogystal ag eitemau eithriedig ynghylch CSC Foundry Limited, Adroddiad Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd ac Achosion Busnes Llawn yn gysylltiedig â Menter Gogledd y Cymoedd a Chysylltiad Ffibr i'r Adeilad.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf, 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi'r cofnodion.

**C128 PENODI PANEL YMGYNGHOROL LLYWODRAETHWYR AWDURDODAU LLEOL –**

Dywedodd y Cynghorydd Birch, a oedd yn cadeirio'r cyfarfod, wrth y Cabinet ei bod yn braf gweld bod bron bob un o'r seddau gwag wedi'u llenwi, gyda rhai Llywodraethwyr yn cefnogi mwy nag un ysgol, a Llywodraethwyr profiadol yn aros neu'n dychwelyd, yr oedd llawer ohonynt yn aelodau lleyg. Roedd hynny'n tystio i safon y rhai a oedd yn eistedd ar y Cyrff Llywodraethu.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion Panel Cynghori ar Benodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi'r cofnodion.

## C129 ADRODDIAD HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/23 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'r eitemau cysylltiedig a gyfeiriwyd o'r Pwyllgorau Craffu o dan Eitemau (4), (5) ac (8) ar yr agenda. Pwrpas yr adroddiad oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Drafft Terfynol Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23, a oedd yn cynnwys y prif ganfyddiadau ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol y Cyngor.

Bu'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel yn ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 13eg Medi, 2023 lle cydnabuwyd bod swm aruthrol o waith wedi'i gyflawni ar yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol, a holwyd a ddylid darparu fersiwn gryno ohono. Dywedodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r adroddiad amlinellu'n glir y byddai'n mynd i'r afael â'r meysydd yr oedd y Cyngor wedi dweud y byddai'n mynd i'r afael â nhw, fel bo modd rhoi sylw i'r hyn a oedd wedi cael ei gyflawni yn y broses gynllunio, a chynnwys datganiad hefyd ynghylch uchelgeisiau a dyheadau'r Cyngor. Dywedodd yr Arweinydd fod datganiad o'r fath yn fwy addas i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol na'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol.

Roedd hi'n ddyhead i annog mwy o breswylwyr i ymgysylltu a chymryd rhan yn y broses hunanasesu, ac roedd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hannog i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu er mwyn gwneud hynny. Fodd bynnag, cytunai'r Arweinydd y gellid gwneud mwy i wella'r broses o gynnwys preswylwyr lleol, gan gynnwys sicrhau bod y cyflwyniadau a wneir i'r Pwyllgorau Craffu ar gael yn rhwyddach.

Rhoddodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyriaeth i'r adroddiad yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2023 a'r teimlad oedd fod yr Adroddiad yn hawdd ei ddeall ac ystyried lefel y manylder a'r wybodaeth ynddo. Ac ystyried bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi arfer edrych ar adroddiadau cymhleth a'r sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, awgrymodd yr Arweinydd fod angen i'r ddogfen nesaf fod rhwng y naill a'r llall o ran manylder/bod rhwydd i'w darllen.

Roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eisiau gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol wrth edrych ar staff asiantaeth a'r ganran o gyfanswm cyflogau'r Cyngor a oedd yn cael ei hennill drwy gontractau asiantaeth, yn ogystal â gwybodaeth am y defnydd o staff a gyflogir drwy asiantaethau. Dywedodd yr Arweinydd fod adroddiad a oedd yn ystyried materion o'r fath wedi'i gynnwys er trafodaeth yn ddiweddarach ar yr agenda. Fodd bynnag, byddai diweddariad yn cael ei wneud i adran 'Ein Blwyddyn mewn Rhifau' yr Adroddiad, gan ddweud bod y Cyngor wedi gwario £198.951m yn 2022/23 ar gyflogau gweithwyr (mewn ysgolion ac mewn meysydd eraill). Cyfanswm y gwariant ar gontractau asiantaeth oedd £15.8m (£9.3m mewn ysgolion a £6.5m mewn meysydd eraill). Roedd hyn yn cyfateb i 7.9% o gyfanswm y gwariant ar gyflogau.

Cafwyd ymholiad hefyd ynghylch cynulleidfa darged yr Adroddiad, a oedd yn gysylltiedig â'r sylw blaenorol am wneud yr Adroddiad yn hygyrch i wahanol grwpiau.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at sylw ynghylch y ffaith bod y Dreth Gyngor yn cynyddu a lefel y gwasanaethau'n gostwng. Wrth osod cyllidebau a pheidio cael digon o gyllid i wneud popeth a geisiwyd, dywedodd ei bod hi'n bwysig rhoi'r flaenoriaeth i geisio gofalu am yr unigolion mwyaf agored i niwed yn hytrach na gwasanaethau anstatudol.

Roedd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 20 Medi, 2023, ac wedi gofyn am fwy o bwyslais yn yr Adroddiad ar fyfyrdodau a barn preswylwyr ynghylch gwasanaethau'r Cyngor, a dywedodd yr Arweinydd fod hyn yn bwynt dilys ac y byddai cyfle i drafod hynny ymhellach cyn gynted ag y byddai canlyniadau'r Arolwg Cwsmeriaid diweddaraf yn hysbys.

Roedd pwysigrwydd cyfathrebu â’r cyhoedd am y gwasanaethau y gellid neu na ellid eu darparu yn rhywbeth a oed yn cael ei drafod bob amser wrth bennu'r gyllideb, ac yn cael ei drafod yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ac mewn Cynlluniau Gwasanaeth.

Cydnabu'r Arweinydd y sylwadau a wnaed gan bob un o'r Pwyllgorau Craffu, a lle bo'n berthnasol byddai'n ceisio'u hystyried o hyn allan wrth wneud gwaith cynllunio a monitro.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r safbwyntiau, y drafodaeth a'r sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 13 Medi, y Pwyllgor Craffu Llywodraethu ac Archwilio Corfforaethol ar 18 Medi a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 20 Medi, 2023.

(2) Cymeradwyo canfyddiadau cryno'r ymgynghoriad a Drafft Terfynol Adroddiad Hunanasesu Blynyddol 2022/23 a oedd wedi'i ddiweddaru a'i gynnwys yn Atodiad A.

(3) Y dylid cyfeirio Drafft Terfynol Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Bro Morgannwg i sylw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (23 Hydref, 2023) i’w ystyried a'i gymeradwyo ganddo yn unol â'i rôl statudol, o dan Ran 6 (adran 114) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac ar ôl ystyried yr adroddiad hwnnw y dylai'r Pwyllgor gyfeirio unrhyw argymhellion yn ôl i sylw'r Cabinet i'w hystyried yn derfynol (2 Tachwedd 2023) cyn i'r Cabinet gyfeirio'r adroddiad, sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymatebion y Cabinet i sylw'r Cyngor (20 Tachwedd, 2023), i'w hystyried a'u cymeradwyo. Os na fyddai gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unrhyw sylwadau pellach i'w cyfeirio er ystyriaeth y Cabinet, y dylid cyfeirio Drafft Terfynol Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Bro Morgannwg i sylw'r Cyngor Llawn (20 Tachwedd 2023), i'w ystyried a'i gymeradwyo.

(4) Awdurdodi'r defnydd o baragraff 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniadau brys) fel bo modd cyfeirio Drafft Terfynol Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd yn cael ei gynnal ar 23 Hydref 2023, bod y Cabinet yn ystyried unrhyw argymhellion ar 2 Tachwedd 2023, cyn ystyriaeth gan y Cyngor Llawn ar 20 Tachwedd, 2023.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad a chymeradwyo'r newidiadau yn sgil hynny i Ddrafft Terfynol yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol 2022/23.

(3) Galluogi’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried canfyddiadau Drafft Terfynol Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg yn unol â’i rôl statudol, o dan Ran 6 (adran 114) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(4) Sicrhau y gellid cyflwyno Drafft Terfynol Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 i'r Cyngor ym mis Tachwedd i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**C130 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad er mwyn rhannu canlyniadau perfformiad chwarter 1 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2023 hyd 30 Mehefin, 2023 o ran cyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 a oedd yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Roedd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 20 Medi, 2023 lle argymhellwyd y dylid rhoi rhagor o fanylion ac eglurhad pellach ynghylch y camau a'r mesurau hynny yn Atodiad C yr adroddiad a oedd wedi'u dangos yn 'llwyd' neu'n 'goch'. Cytunai'r Arweinydd fod angen esbonio ymhellach pam bod y labeli hynny wedi'u gosod ar y dangosyddion dan sylw.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r argymhellion a wnaed ym Mhenderfyniad (2) gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2023.

(2) Y dylid nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 1 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

(3) Nodi barn ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â pherfformiad Ch1 a bod y camau unioni a nodwyd yn cael eu cymeradwyo fel sail i fynd i'r afael ag agweddau ar danberfformiad, ac i ymdrin â'r prif heriau a nodwyd.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ar sail cynnwys yr eitem a gyfeiriwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24, sy'n anelu i newid bywydau dinasyddion Bro Morgannwg er gwell.

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni gofynion perfformiad fel y'u hamlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac yn adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyfrannu hyd yr eithaf at gyflawni nodau llesiant Cymru

**C131 CRONFA COSTAU BYW (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad er mwyn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer nifer o gynigion ar gyfer defnyddio cronfa wrth gefn Costau Byw y Cyngor. Roedd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad ar gostau byw yn ei gyfarfod ar 18 Hydref, 2023.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyllid ychwanegol ar gyfer cyngor fel y'i disgrifir ym mharagraff 1.2 o'r adroddiad, a oedd yn bwysig gan fod y gwariant hwnnw'n cael effaith luosog o fewn y system. Roedd data'n dal i gyfeirio at broblemau'n gysylltiedig â thlodi ar draws Bro Morgannwg o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, gan gynnwys bwyd, ynni a'r ffaith bod nifer y landlordiaid yn y farchnad dai yn gostwng.

Dywedodd y Cynghorydd Williams nad oedd y symiau dan sylw yn enfawr ond eu bod yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r rhai oedd eu hangen, boed hynny drwy Gyngor ar Bopeth, banciau bwyd neu ddarparu bwyd mewn ysgolion.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r cynnig i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn Costau Byw i neilltuo swm i gefnogi prosiectau cymunedol ,gyda £25k yn 2023-24 a £25k arall yn 2024-25, a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac

Adnoddau, lunio a chytuno meini prawf penodol ar gyfer defnyddio'r cyllid i fodloni anghenion o fewn y gymuned.

(2) Cymeradwyo’r cynnig i ddefnyddio’r gronfa wrth gefn Costau Byw i ddarparu cyllid i Fanc Bwyd y Fro, gyda dyraniad o £3.5k yn 2023-24 yn ychwanegol at y cyllid a dderbyniwyd eisoes a £20k yn 2024-25.

(3) Cymeradwyo'r cynnig i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn Costau Byw i ddarparu £30k o gyllid i Gyngor ar Bopeth yn 2024-25, yn ychwanegol at y cyllid y cytunwyd ei gymeradwyo eisoes.

(4) Cymeradwyo'r cynnig i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn Costau Byw i ddarparu £50k yn ychwanegol i'r gronfa Taliadau Tai Dewisol yn 2023-24, ac eto yn 2024-25.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Galluogi defnyddio'r gronfa wrth gefn Costau Byw i gefnogi sefydliadau sy'n helpu'r rhai sy'n profi anawsterau oherwydd yr heriau presennol yn gysylltiedig â Chostau Byw.

(2) Galluogi defnyddio'r gronfa wrth gefn Costau Byw i roi cymorth ychwanegol i Fanc Bwyd y Fro.

(3) Galluogi defnyddio'r gronfa wrth gefn Costau Byw i roi cymorth ychwanegol i Gyngor ar Bopeth.

(4) Galluogi defnyddio'r gronfa wrth gefn Costau Byw i gynyddu'r cyllid sydd ar gael drwy Daliadau Tai Dewisol i gefnogi'r rhai sydd mewn angen.

**C132 POLISI BYW'N ANNIBYNNOL (AG/BA) (CRAFFU - CARTREF A CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a'r eitem gysylltiedig a gyfeiriwyd o'r Pwyllgorau Craffu o dan Eitem (11) ar yr agenda. Pwrpas yr adroddiad oedd amlinellu'r cynnig i weithredu Polisi Byw'n Annibynnol ym Mro Morgannwg.

Byddai’r Polisi Byw’n Annibynnol yn galluogi unigolion i ffynnu gartref a chadw eu hurddas, drwy allu byw gartref gyda’r hyder bod ganddynt y cyfleusterau a’r cymorth cywir. Roedd hi wedi bod yn anodd i rai preswylwyr fodloni'r meini prawf modd ar gyfer y Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl, neu ganfod yr arian i osod yr addasiadau hynny.

Bu'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel yn craffu ymlaen llaw ar y Polisi ar 11 Hydref 2023, lle cafodd groeso mawr. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor am i'r Polisi gynnwys cymorth eiriolaeth i ymgeiswyr a chyfeiriadau i gyngor ac eiriolaeth, ac ystyriwyd bod hynny'n ffordd synhwyrol o symud ymlaen. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd y pwynt bod y tai yr oedd y Cyngor yn eu hadeiladu ar hyn o bryd yn cael eu dylunio fel cartrefi am oes, gydag ystafelloedd gwlyb ar y llawr gwaelod

a socedi trydan wrth waelod y grisiau er mwyn gallu gosod cadeiriau esgyn ar y grisiau os oedd angen.

Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai'r Polisi'n golygu bod modd mynd i'r afael â'r anawsterau a gafwyd yn y gorffennol gydag addasiadau, a'i fod yn nodi, ar y cyd â phartneriaid, fel Therapyddion Galwedigaethol, pa newidiadau oedd yn angenrheidiol yn hytrach na dymunol. Roedd hi'n bwysig sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, a chadarnhawyd na fyddai prawf modd yn cael ei gynnal ar aelodau o'r lluoedd arfog. Roedd y Cynghorydd John hefyd yn croesawu'r Polisi fel un a allai gynnig cyfleoedd i gymaint o breswylwyr. Diolchodd yr Arweinydd i'r Swyddogion ar draws gwahanol adrannau am gydweithio er mwyn cyflwyno'r Polisi.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r sylwadau a gafwyd gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 11 Hydref, 2023.

(2) Cymeradwyo'r Polisi Byw'n Annibynnol sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r Adroddiad.

(3) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gymhwyso unrhyw amodau ariannol priodol i grantiau a ddyfernir o dan y Polisi.

(4) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwyr Lle a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud unrhyw fân ddiwygiadau angenrheidiol i'r Polisi Byw'n Annibynnol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Craffu perthnasol er mwyn cymeradwyo'r Polisi Byw'n Annibynnol.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i'r heriau presennol yr oedd profion modd yn eu hachosi i berchnogion tai preifat, a sefydlu proses newydd ac ystod o grantiau a fyddai'n galluogi addasiadau cyfleusterau i bobl anabl yn y rhan fwyaf o gartrefi ym Mro Morgannwg lle bo angen.

(3) Sicrhau bod y gronfa'n gynaliadwy ac yn ddigonol i fodloni anghenion trigolion.

(4) Caniatáu unrhyw fân ddiwygiadau angenrheidiol.

**C133 DYFARNU CONTRACT GWEITHIWR ASIANTAETH (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am y gwaith a gyflawnwyd yn gysylltiedig â dyfarnu Contract Asiantaeth Gorfforaethol y Cyngor.

Roedd adroddiad pellach Rhan II wedi'i gynnwys ar agenda'r cyfarfod lle byddai agweddau cyfrinachol yr adroddiad yn destun trafodaeth.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi ac ystyried cynnwys yr adroddiad mewn cysylltiad ag adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

(2) Cymeradwyo defnyddio'r weithdrefn ar gyfer penderfyniadau brys fel y'i nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad Rhan II.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Galluogi ystyried adroddiadau Rhan I a Rhan II gyda'i gilydd.

(2) Ymateb cyn dyddiad dod i ben y contract cyfredol, sef 31 Hydref, 2023.

**C134 PARC SEEL, DINAS POWYS (WCA) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i bwrpas oedd trosglwyddo Parc Seel i Gyngor Cymuned Dinas Powys yn unol â'r protocol ar gyfer ystyried ceisiadau gan Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu a throsglwyddo asedau neu wasanaethau.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, i hysbysebu'r bwriad i waredu'r man agored yn unol ag Adran 123 (2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a bod unrhyw wrthwynebiadau i hynny'n cael eu hadrodd gerbron y Cabinet er ystyriaeth.

(2) Yn amodol ar Argymhelliad 1, rhoi awdurdod i drosglwyddo Parc Seel yn Ninas Powys i gyfrifoldeb Cyngor Cymuned Dinas Powys ar brydles 99 mlynedd yn unol â phrotocol y Cyngor a gymeradwywyd yn 2018 ar gyfer gweithredu a throsglwyddo asedau neu wasanaethau i Gynghorau Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg.

(3) Yn amodol ar Argymhelliad 1, y dylid awdurdodi Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gytuno ar delerau ac amodau ar gyfer prydles 99 mlynedd i Gyngor Cymuned Dinas Powys am rent rhad, gan gynnwys cyfamodau i gynnal a chadw'r tir fel man agored cyhoeddus.

(4) Yn amodol ar Argymhelliad 1, rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennau angenrheidiol yn gysylltiedig â throsglwyddo'r tir i Gyngor Cymuned Dinas Powys.

(5) Yn amodol ar gytuno ar hynny â Chyngor Cymuned Dinas Powys, fod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai yn bwrw ymlaen â Gweithred Gyflwyno gyda Meysydd Chwarae Cymru, mewn ymgynghoriad â Swyddogion perthnasol eraill.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â chael gwared â thir agored.

(2) Caniatáu i Gyngor Cymuned Dinas Powys wella'r man agored cyhoeddus gan leihau costau cynnal a chadw Cyngor Bro Morgannwg.

(3) Rhoi'r awdurdod angenrheidiol i ymrwymo i brydles â Chyngor Cymuned Dinas Powys ar delerau addas.

(4) Ffurfioli trefniant prydles priodol ac unrhyw ddogfennau eraill sydd eu hangen yn gyfreithiol.

(5) Cynnig cyfleoedd ychwanegol am grant a chynorthwyo i ddiogelu'r tir fel man agored cyhoeddus i genedlaethau'r dyfodol.

**C135 TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL 2023-28 (DSCYT) (CRAFFU - CARTREF A CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a’i ddiben oedd ceisio mabwysiadu Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2023-2028 Caerdydd a Bro Morgannwg a chytuno ar y cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth VAWDASV.

Dywedodd y Cynghorydd Perkes y cafodd Cynghorwyr gyfle'n ddiweddar i dderbyn hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' a oedd yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau yr oedd ar Gynghorwyr eu hangen i gefnogi a gweithio gydag aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Mabwysiadu Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2023-2028 Caerdydd a Bro Morgannwg (ynghlwm yn Atodiad 1).

(2) Cymeradwyo dyraniad cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi ymateb y Cyngor i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

(3) Awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddrafftio a gweithredu'r math angenrheidiol o gontract â darparwyr gwasanaethau VAWDASV.

(4) Y dylid darparu adroddiadau pellach maes o law ar weithredoedd y Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Dangos ymrwymiad y Cyngor i ymateb y rhanbarth.

(2) Dangos ymrwymiad y Cyngor i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig a cham-drin rhywiol sy'n agored i niwed.

(3) Parhau â'r gefnogaeth strategol bresennol sydd eisoes wedi bod yn llwyddiannus ac sydd wedi galluogi'r Cyngor i weithredu ffyrdd newydd o weithio a sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog Ariannol a Chontractau'r Cyngor.

(4) Sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau cyfreithiol y Cyngor o dan y Ddeddf.

**C136 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C137 DYFARNU CONTRACT GWEITHIWR ASIANTAETH (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am y gwaith a gyflawnwyd yn gysylltiedig â dyfarnu Contract Asiantaeth Gorfforaethol y Cyngor.

Eglurwyd y byddai'r contract newydd ym Mharagraff 1.7 o'r adroddiad am gyfnod o bum (5) mlynedd gyda'r opsiwn i'w ymestyn am ddwy (2) flynedd arall, yn hytrach nag am gyfnod o dair (3) blynedd gyda opsiwn i ymestyn am un (1) flwyddyn arall.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Bod yr angen am Weithwyr Asiantaeth i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor ac unrhyw ddarpariaeth asiantaeth yn cael eu rheoli drwy ddarpariaeth allanol, fel yr amlinellwyd yn adroddiad cysylltiedig Rhan I ar yr agenda.

(2) Cytuno ar ganlyniad yr ymarfer gwerthuso a gynhaliwyd gan y pedwar Cyngor, a chadarnhau'r cytundeb i benodi darparydd asiantaeth fel y cytunwyd yn dilyn y broses gaffael.

(3) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i gymeradwyo penodi'r darparydd asiantaeth yn unol â chanlyniad y broses werthuso, a rhoi cyfarwyddyd i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd/Rheolwr Gweithredol (Gwasanaethau Cyfreithiol) gwblhau'r holl ddogfennau cyfreithiol angenrheidiol i alluogi'r penodiad.

(4) Y byddai'r Cabinet yn derbyn diweddariad pellach ar ddefnydd y Cyngor o weithwyr asiantaeth yn y dyfodol yn dilyn adolygiad o hynny yn rhan o broses pennu cyllideb y Cyngor.

(5) Awdurdodi'r defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad Rhan II.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o angen y Cyngor am ddarpariaeth Asiantaeth yn y Cyngor.

(2-3) Caniatáu i'r Cyngor ymrwymo i gontract â'r darparydd asiantaeth llwyddiannus.

(4) Rhoi trosolwg i'r Cabinet o'r defnydd o weithwyr asiantaeth a sicrwydd bod y trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli defnydd effeithlon ac effeithiol o arian y Cyngor.

(5) Ymateb cyn dyddiad dod i ben y contract cyfredol, sef 31 Hydref, 2023.